# Datganiad o Fwriad Cymhwysedd Hyblyg Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn

**Dyddiad 08.03.21**
**Fersiwn: V4**

**Mae'r datganiad hwn yn gosod meini prawf cymhwysedd hyblyg Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y rhaglen ECO 'Help to Heat' o Hydref 2018 – . Ei nod yw cefnogi'r aelwydydd hynny yng Ngwynedd a Môn sydd fwyaf tebygol o ddioddef o dlodi tanwydd, a'r rhai sydd fwyaf agored i effeithiau cartref oer.**

**Cyflwyniad -**Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn yn croesawu'r bwriad i gyflwyno Cymhwysedd Hyblyg eleni, ac mae'n bwriadu'i ddefnyddio at ddibenion lleihau tlodi tanwydd yn y sir.

**Beth yw cymhwysedd hyblyg? -** Mae Awdurdodau Lleol, gan weithio gyda chyflenwyr Ynni sydd wedi ymrwymo dan ECO (Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni) yn cael y cyfle i ymestyn y meini prawf cymhwysedd ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer cartrefi nad ydynt yn rhan o gynlluniau cymorth presennol fel Nyth.

**Pennu aelwydydd -** Mae'r cyllid hwn ar gael ar gyfer perchnogion eiddo preifat a thenantiaid eiddo rhent preifat yn unig. Pennir teilyngdod ar gyfer cymhwysedd hyblyg yng Ngwynedd a Môn gan berchennog yr eiddo.

**Mesurau cymwys -** Mae'r mesurau effeithlonrwydd ynni y gellir eu gosod mewn eiddo cymwys yn cynnwys systemau gwres canolog newydd ac uwchraddio'r insiwleiddio. Nid yw Datganiad gan yr awdurdod leol i gyflenwr yn gwarantu caiff mesuron eu mewnosod, gan bydd y benderfyniad derfynol yn dibynnu ar
i) Arolwg gan asiant/contractwr y cyflenwr a chostau'r mewnosodiad
ii) Yr arbediad ynni all gael ei gyflawni gan eiddo
iii) Os yw cyflenwyr wedi cyfarch eu targedau neu angen mesurau pellach i gyfarch targedau ECO

**Contractwyr -** Bydd cyflenwyr ynni neu asiantau cyflenwyr ynni sy'n ymwneud â'r arolygon cymhwysedd hyblyg, a'r gwaith a bennir, yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data yn unol â gofynion Ofgem, ac yn gweithredu'n unol ag arfer gorau'r diwydiant mewn perthynas â gofal defnyddwyr a safonau ansawdd. Bydd gofyn iddynt hefyd gael cymwyseddau **Pas 2030(2019)**, **Tystysgrifau Yswiriant** dilys ac yn gallu cynnig **gwasanaeth dwyieithog** yn unol a Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor.

**Cost yn gysylltiedig gyda datganiad Gwynedd** – Y gost gweinyddu a godir gan Cyngor Gwynedd a Môn i ddarparu'r datganiad sydd ei angen i gleientiaid gael mynediad i gynllun Cymhwyster Hyblyg ECO yw £150. Mae'r rhaid i'r cyflenwr ynni neu eu hasiant dalu'r gost yma pan gwblheir y gwaith ac **NI** chaiff ei drosglwyddo mewn unrhyw amgylchiadau i'r cleient sy'n derbyn cymorth drwy'r cynllun.

**Penderfyniad terfynol -** Y cyflenwyr ynni neu'u hasiantau/contractwyr fydd yn penderfynu p'un ai fydd aelwyd yn derbyn mesurau dan y rhaglen cymhwysedd hyblyg neu ffynonellau ariannu eraill ECO ai peidio. Ni fydd teilyngdod yn y datganiad o fwriad neu'r Datganiad gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn gwarantu gosod unrhyw fesurau, oherwydd y cyflenwr fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

**Cwestiwn 1 Meini Prawf Cymhwysedd**
I fod yn gymwys:

i. rhaid i'r eiddo fod â chyfradd **Tystysgrif Perfformiad Ynni o F neu G** neu gael sgôr o **15 pwynt neu ragor** yn Nhabl 1 isod; neu
ii. rhaid i'r eiddo fod â chyfradd **Tystysgrif Perfformiad Ynni o E** neu gael **sgôr o 10 pwynt neu ragor a llai na 15 pwynt** yn Nhabl 1 isod

**a** bod naill ai'n aelwyd sy'n dlawd o safbwynt tanwydd (aelwydydd sy'n gwario mwy na 10% o incwm yr aelwyd ar gostau tanwydd os cafodd y cartref ei wresogi i lefel dderbyniol) neu bod aelod o'r aelwyd yn fregus ac mewn mwy o berygl oherwydd ei fod/ei bod yn byw mewn eiddo oer. Penderfynir ar fregusrwydd drwy asesu a yw aelod o'r aelwyd yn cwrdd â'r meini prawf yng Nghwestiwn 2.

| **Tabl 1 – Cyflwr yr Eiddo** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Manylion yr Eiddo | Manylion yr Eiddo | Manylion yr Eiddo | Manylion yr Eiddo | Manylion yr Eiddo |
| Nifer stafelloedd gwely | 1 | 1 | | |
| | 2 | 2 | | |
| | 3+ | 3 | | |
| Nifer yn byw yn yr eiddo | 1 | 1 | | |
| | 2 | 2 | | |
| | 3+ | 3 | | |
| Faint o insiwleiddio sydd yn y nenfwd | Dim | 5 | | |
| | Hyd at to 150mm | 3 | | |
| | 150mm i 250mm | 2 | | |
| | 250mm neu fwy | 1 | | |
| Beth caiff y waliau eu gwneud ohono | Adeilad parod | 5 | | |
| | Carreg soled / bric | 3 | | |
| | Adeilad ceudod | 1 | | |
| Faint o insiwleiddio sydd yn bresennol | Tu allan | 1 | | |
| | Tu mewn | 1 | | |
| | Ceudod | 2 | | |
| | Dim | 5 | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pa fath  danwydd gaiff ei ddefnyddio o fewn yr eiddo | Prif gyflenwad nwy | 2 | | |
| | Olew | 2 | | |
| | LPG | 3 | | |
| | Trydan | 5 | | |
| | Tanwydd soled | 5 | | |
| A oes system gwresogi canolog yn yr eiddo, a pha oed yw ef | Llai na 10 oed | 1 | | |
| | Dros 10 oed | 3 | | |
| | System wedi torri | 5 | | |
| | Dim system | 5 | | |
| | | | Cyfanswm | |

**Cwestiwn 2 - Pa mor Agored i Niwed yw'r Cleient?**
Mae angen dangos bod y teulu'n wynebu mwy o berygl yn sgil effeithiau byw mewn cartref oer, ac mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn mabwysiadu'r dull canlynol.

Mae canllawiau NICE *'Excess winter deaths and illness and the health risks associated with cold homes'* yn nodi bod amrywiaeth eang o bobl yn wynebu mwy o berygl oherwydd oerfel. Mae hyn un ai oherwydd cyflwr meddygol, megis clefyd y galon; anabledd sydd, er enghraifft, yn atal pobl rhag symud o gwmpas i gadw'n gynnes, neu sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o ddatblygu heintiau ar y frest; neu amgylchiadau personol, megis methu â fforddio cadw'n ddigon cynnes.

Bydd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn targedu aelwydydd sy'n cynnwys pobl gyda'r canlynol, sy'n adlewyrchu canllawiau 2015 Y Sefydliad Cenedlaethol Dros Ragoriaeth Mewn Iechyd a Gofal (NICE) ar farwolaethau a salwch dros y gaeaf yn sgil cartrefi oer.

Mae aelod o'r teulu yn dioddef o un o'r canlynol neu'n dod o dan un o'r categorïau canlynol:

i) Dros 60 oed (mae angen prawf oedran)
ii) Plant dan 5 oed a rhai sydd mewn addysg gynradd neu uwchradd neu mae'r fam yn feichiog
iii) Clefyd anadlol (COPD, asthma)
iv) Clefyd cardiofasgwlaidd (e.e. clefyd isgemia'r galon, clefyd cerebrofasgwlaidd)
v) Salwch meddwl cymedrol i ddifrifol (e.e. sgitsoffrenia, anhwylder deubegwn)
vi) Camddefnyddwyr sylweddau
vii) Dementia.
viii) Clefydau niwrofiolegol a chlefydau perthynol (e.e. ffibromyalgia, ME)
ix) Canser
x) Symudedd cyfyngedig

xi) Haemoglobinopathau (anaemia cryman-gell, thalasaemia)
xii) Anableddau dysgu difrifol
xiii) Clefydau awtoimiwnedd a diffyg imiwnedd (e.e. lwpws, MS, diabetes, HIV)

**Bydd angen datganiad wedi'i lofnodi gan feddyg neu ymarferydd iechyd i gadarnhau unrhyw broblemau iechyd iii - xiii.**

**Llywodraethu**
Bydd y swyddogion isod yn gyfrifol am lofnodi Datganiadau ar ran yr awdurdod lleol:

i. David M Lewis — Teitl Swydd: Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol
ii. Hedd M G Tomos — Teitl Swydd: Rheolwr Cyflenwad Tai ac Eiddo
iii. Carys Fôn Williams — Teitl Swydd: Pennaeth Adran Tai ac Eiddo

**Monitro**
Bydd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn cofnodi nifer yr aelwydydd y cysylltir â nhw sy'n gymwys ar gyfer y rhaglen Cymhwysedd Hyblyg ECO, ynghyd â nifer y mesurau a osodwyd, a nifer y tai a wellwyd yn sgil y rhaglen.

**Arwyddwyd**
Arwyddwyd gan: Dyddiad: 08.03.22



**Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol**
**Cyngor Gwynedd**